| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn gwrandawiad 6 – Yr Amgylchedd naturiol ac adeiledig** | |

**Pwynt Gweithredu S6/PG9 – Polisi AT 1**

***Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i egluro maen prawf 4.***

**Ymateb y Cynghorau**

Yn dilyn ystyriaeth bellach o faen prawf 4 y polisi, cytunir ei bod yn creu amwyster yng ngeiriad y polisi ac felly dylid cael ei ddileu. O'r herwydd, dymunai'r Cynghorau cynnig addasu'r polisi (trwy Newid Materion sy'n Codi) fel y ganlyn:

"POLISI AT1: ARDALOEDD CADWRAETH, SAFLEOEDD TREFTADAETH Y BYD A THIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL COFRESTREDIG

Bydd angen i gynigion o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig dangosir ar y Map Cyfyngiadau lle'n briodol ystyried:

1. Gwerthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth fabwysiedig; Cynlluniau a Strategaethau Cyflawni Ardaloedd Cadwraeth.
2. Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd.
3. Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.
4. ~~Asesiadau manwl eraill sydd wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.~~

Dylai cynigion gael eu cefnogi gan Asesiad Ardrawiad Treftadaeth, lle'n briodol."

**Pwynt Gweithredu S6/PG10 – Polisi AT 4**

***Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gyfeirio tuag at 'gosodiad' o fewn testun y polisi.***

**Pwynt Gweithredu S6/PG1 – Cyffredinol**

***Mireinio geiriad polisïau i sicrhau cysondeb o ran disgrifio'r raddfa effaith, h.y. defnydd o 'arwyddocaol' neu beidio.***

**Ymateb y Cynghorau**

Dymunai'r Cynghorau cynnig addasu'r polisi (trwy Newid Materion a Godir) fel y ganlyn:

"POLISI AT4: DIOGELU SAFLEOEDD ARCHEOLEGOL NAD YDYNT WEDI'U DYNODI **A'U GOSODIAD**

Bydd datblygiadau allai gael effaith andwyol **arwyddocaol** ar safleoedd o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol posib **a'u gosodiad** neu sydd â phwysigrwydd treftadaeth a gydnabyddir yn lleol, gan gynnwys safleoedd archeolegol diwydiannol nad ydynt wedi'u rhestru **a'u gosodiad** yn:

1. Cael eu hasesu o ran pwysigrwydd cynhenid y 'safle' a hyd a lled posib y niwed.
2. Gofyn, ble bo'n briodol, am un ai asesiadau archeolegol a/neu werthusiadau maes er mwyn pennu effaith archeolegol y datblygiad arfaethedig cyn i'r Awdurdod Cynllunio benderfynu ar y cais.

Gwrthodir datblygiadau fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

Ble mae cynigion yn dderbyniol atodir amod i'r caniatâd yn datgan na ddylid ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad hyd nes y cytunir ar raglen o waith archeolegol."

## Pwynt Gweithredu S6/PG11 – PS16 & PS17

***Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi ym Mholisi PS16 a Pholisi PS17 i gyfeirio at "gwarchod neu wella" yn lle "gwarchod a gwella".***

### Ymateb y Cynghorau

Dymunai'r Cynghorau cynnig addasu'r polisïau (trwy Newid Materion sy'n Codi) fel y ganlyn:

"POLISI STRATEGOL PS16: GWARCHOD **NEU** WELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL

Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod ~~a~~ **neu** wella amgylchedd naturiol,............"

"POLISI PS17: DIOGELU **NEU** WELLA ASEDAU TREFTADAETH

Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd y ACLI yn diogelu **neu,** ~~a~~ lle bo hynny'n briodol, yn gwella'r asedau treftadaeth unigryw:

Caniateir cynigion a fydd yn diogelu ~~a~~ **neu** gwella'r asedau treftadaeth........"